

Ymgynghoriad ar ddiwygio darpariaethau gwybodaeth am alergenau mewn deddfwriaeth gwybodaeth am fwyd ddomestig ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol

Ionawr 2019



© Hawlfraint y Goron 2018

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f.3. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu anfonwch e-bost at PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael drwy www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn at allergenlabellingreview@defra.gsi.gov.uk

Tîm Adolygu Labelu Alergenau

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra)

Ystafell 202, Parth 2

1-2 Peasholme Green

Caerefrog

YO1 7PX

www.gov.uk/defra

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	1
2. Cyd-destun.....	1
Cefndir cyffredinol ar orsensitifrwydd i fwyd.....	1
Y Cefndir Deddfwriaethol.....	2
Gorfodi rheoliadau	2
Darparu gwybodaeth am alergenau ar hyn o bryd.....	3
Bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw.....	3
Bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw.....	3
Beth yw bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol?.....	4
3. Cwmpas yr ymgynghoriad hwn.....	5
Tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad	6
4. Dewisiadau polisi.....	7
Dewis nad yw'n un rheoleiddiol.....	8
Dewis polisi 1 – Hyrwyddo arfer gorau	8
Dewisiadau rheoleiddiol.....	9
Dewis polisi 2 – Labeli "gofynnwch i'r staff" gorfodol ar ddeunydd pecynnu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol, gyda gwybodaeth ategol ar gyfer defnyddwyr yn ysgrifenedig	9
Dewis polisi 3 – Ei gwneud hi'n orfodol labelu enw'r bwyd a'r alergenau ar ddeunydd pecynnu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol	10
Dewis polisi 4 – Ei gwneud hi'n orfodol cael label gydag enw'r bwyd a rhestr lawn o'r cynhwysion, gan bwysleisio'r alergenau, ar ddeunydd pecynnu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol	10
5. Cwestiynau	11
6. Pam rydym ni'n ymgynghori?	22
7. Sut i ymateb	22
Cyfrinachedd a diogelu data	23

Rhannu ymatebion.....	24
Atodiad A – Bwyd alergenaidd	25
Atodiad B – Geirfa.....	27
Atodiad C – Deunydd cyfeirio.....	30

1. Cyflwyniad

Rydym ni'n lansio'r ymgynghoriad hwn ar ddiwygiadau arfaethedig i Reoliadau domestig Gwybodaeth am Fwyd 2014 (Cymru) a'r rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd cyfochrog yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn ymwneud â'r wybodaeth orfodol, dull o fynegi a chyflwyno gwybodaeth labelu alergenau ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr ar yr un safle y caiff ei werthu.

Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, Safonau Bwyd yr Alban a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) yn cydweithio i adolygu'r fframwaith cyfreithiol presennol ar wybodaeth am alergenau ar gyfer bwyd sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol. Mae nifer o ddewisiadau polisi wedi'u datblygu i wella'r wybodaeth a gaiff ei darparu am alergenau. Caiff grwpiau defnyddwyr a busnes, awdurdodau gorfodi ac aelodau'r cyhoedd eu gwahodd i gyfrannu eu safbwyntiau ar y rhain.

Er ein bod ni'n aelod o'r Undeb Ewropeaidd (UE), cawn ein cyfyngu o ran y newidiadau y gallwn eu gwneud i'r ddeddfwriaeth ynghylch darparu gwybodaeth am alergenau. Er enghraifft, ni allwn newid y diffiniadau o fwyd nad yw wedi'i becynnu ymlaen llaw ac ni allwn newid sut y caiff gwybodaeth ei darparu i ddefnyddwyr ar gyfer bwyd wedi'i archebu o bell (e.e. o siop tecawê). Yn y tymor hwy, mae gennym gyfle i adolygu'r holl labeli bwyd pan fydd y Deyrnas Unedig (DU) yn ymadael â'r UE.

2. Cyd-destun

Cefndir cyffredinol ar orsensitifrwydd i fwyd

Gorsensitifrwydd i fwyd yw pan fo pobl yn cael adwaith andwyol wrth fwyta rhai bwydydd. Mae dau fath o orsensitifrwydd i fwyd, alergedd bwyd ac anoddefiad bwyd (gorsensitifrwydd i fwyd nad yw'n alergedd bwyd). Yn y Deyrnas Unedig (DU), amcangyfrifir bod gan 1-2% o oedolion a 5-8% o blant alergedd bwyd. Mae hyn yn cyfateb i tua 2 filiwn o bobl yn byw yn y DU gydag alergedd bwyd, ond nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys y rhai hynny sydd ag anoddefiad bwyd. Yn ogystal, amcangyfrifir bod gan 1 ym mhob 100 o bobl glefyd seliag, sef cyflwr awto-imiwn sy'n achosi difrod i leinin y perfedd pan fo glwten mewn bwyd.

Gall ychydig bach iawn o gynhwysyn bwyd y mae rhywun yn sensitif iddo achosi adwaith alergaidd, er enghraifft llwy de o laeth powdwr, darn bach o bysgnau (*peanut*) neu un neu ddau hadyn sesame. Gall symptomau adwaith alergaidd amrywio o rai ysgafn megis cosi o amgylch y geg a brech (*rash*); i rai mwy difrifol fel chwydu, dolur rhydd, gwichian ac o bryd i'w gilydd anaffylacsis (sioc). Mae tua deg o bobl yn y DU yn marw o adweithiau alergaidd i fwyd bob blwyddyn.

Nid oes unrhyw ffordd o wella alergeddau nac anoddefiadau bwyd. Yr unig ffordd o reoli'r cyflwr yw osgoi'r bwyd sy'n gwneud yr unigolyn yn sâl. Felly, mae'n bwysig iawn fod defnyddwyr yn cael gwybodaeth gywir am gynhwysion alergenaidd mewn cynhyrchion er mwyn iddynt allu gwneud dewisiadau bwyd diogel. Mae'r ffaith bod pobl yn dal i farw a bod effeithiau'n dal i barhau ar iechyd y cyhoedd wedi codi'r mater ynghylch a yw'r fframwaith rheoliadol presennol ar ddarparu gwybodaeth am alergenau ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol yn ddigonol i roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar ddefnyddwyr allu gwneud dewisiadau bwyd diogel.

Y Cefndir Deddfwriaethol

Mae Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr yr UE (FIC) yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar ddarparu gwybodaeth am alergenau bwyd, ac mae Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014 (FIR) a rheoliadau cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn rheoliadau domestig sy'n sefydlu'r mesurau gorfodi ar gyfer y FIC yn y DU. Yn 2011, cyflwynodd y Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr (FIC) reolau newydd ar gyfer Gweithredwyr Busnesau Bwyd yn ymwneud â labelu a darparu gwybodaeth am alergenau. Mae dyletswydd ar Weithredwyr Busnesau Bwyd i sicrhau bod yr holl wybodaeth orfodol am alergenau bwyd yn gywir, ar gael ac yn hawdd i ddefnyddwyr gael gafael arni. Mae'r FIC yn galluogi aelod-wladwriaethau i gyflwyno mesurau cenedlaethol o ran sut mae gwybodaeth ar gael am fwyd heb ei becynnu ymlaen llaw.

Yn y DU, wrth gydnabod yr amrywiaeth eang o sefydliadau bwyta allan ac yn dilyn ymgynghoriad â rhanddeiliaid gan gynnwys grwpiau busnes a chleifion, cyflwynodd FIR ddull hyblyg at ddarparu gwybodaeth am alergenau ar gyfer bwyd heb ei becynnu ymlaen llawn, gan gynnwys bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol, ac y gellir ei chyflwyno drwy ba bynnag ffordd y dewisa'r busnes, gan gynnwys ar lafar gan aelod o staff. Pan fo'r Gweithredwr Busnes Bwyd yn dewis peidio â darparu gwybodaeth am gynhwysion bwyd alergenaidd ar fwydlen, er enghraifft, rhaid bod neges yn rhoi gwybod i gwsmeriaid y dylent siarad ag aelod o staff ar label sydd ynghlwm â'r bwyd ei hun neu ar hysbysfwrdd, bwydlen, tocyn neu label y gall y cwsmer ei weld yn amlwg yn y man y mae'n dewis y bwyd.

Gorfodi rheoliadau

Mae rheoliadau gorfodi FIR ar wahân ond cyfochrog yn bodoli ym mhob un o bedair gwlad y DU. Swyddogion gorfodi bwyd awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am orfodi'r rheoliadau hyn. Gall person(au) a geir yn euog o drosedd FIR wynebu dirwyon diderfyn (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) a chosbau troseddol. Hefyd, gall achosion o dorri'r gyfraith o dan FIR yn ymwneud ag alergenau arwain at droseddau o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (Cymru, Lloegr a'r Alban) neu Orchymyn Diogelwch Bwyd (Gogledd Iwerddon) 1991 sy'n gallu arwain at ddirwyon neu garchar. O fewn awdurdodau lleol caiff y gwaith gorfodi ei rannu rhwng timau Safonau Masnach ac Iechyd yr Amgylchedd.

Darparu gwybodaeth am alergenau ar hyn o bryd

Bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw

Mae'n rhaid i fwyd sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw, er enghraifft pryd parod a werthir mewn archfarchnad, gael label clir gyda'r holl gynhwysion a chynhwysion alergenaid o'r rhestr o 14 o sylweddau neu gynhyrchion sy'n achosi alergedd neu anoddefiad a restrir yn Atodiad II y FIC ac a nodir yn Atodiad A i'r ddogfen hon. Mae'n rhaid i gynhwysion alergenaid fod yn amlycach na'r cynhwysion eraill, er enghraifft wedi'u nodi mewn print **trwm**.

Dyma nodi, er eglurder, ddehongliad yr ASB o fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw, sy'n deillio o'r diffiniad a nodir yn Erthygl 2(2)(e) y FIC (o'i gyfieithu):

"Bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw: Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw fwyd wedi'i becynnu cyn cael ei werthu er enghraifft bar o siocled, paced o greision wedi'i selio, jar o saws neu gan o gawl. Mae'n rhaid i bob un o'r canlynol fod yn berthnasol:

- mae'r bwyd un ai wedi'i amgáu'n rhannol neu'n llwyr yn y pecyn;
- ni ellir newid y bwyd heb agor neu newid y pecyn;
- mae'r cynnyrch yn barod i'w werthu i'r cwsmer terfynol neu i arlwywr mawr."

Gan fod rhaid labelu'r holl gynhwysion ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw, nid yw'n dod o fewn cwpas yr ymgynghoriad hwn.

Bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw

O dan y FIC, mae bwyd nad yw wedi'i becynnu ymlaen llaw yn cynnwys:

- bwyd heb ei becynnu, megis eitemau rhydd a werthir i gwsmeriaid heb ddeunydd pecynnu;
- bwyd wedi'i becynnu ar y safle gwerthu ar gais y cwsmer;
- bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol.

Mae'r categori 'heb ei becynnu ymlaen llaw' y mae bwyd yn perthyn iddo yn dibynnu ar ble a phryd y caiff ei becynnu mewn perthynas â'r adeg y caiff ei werthu. Gall hyn amrywio ar gyfer yr un cynhyrchion yn ôl y ffordd y mae busnes yn gweithredu e.e. pan fo busnes yn pecynnu rhai bwydydd ymlaen llaw ar y safle gan ragweld cyfnod prysur o werthu, ond fel arall yn pecynnu'r bwyd ar gais y cwsmer.

O ran bwyd nad yw wedi'i becynnu ymlaen llaw, nid oes unrhyw ofyniad i labelu cynnyrch unigol gyda'r un wybodaeth orfodol sydd ei hangen ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r wybodaeth am alergenau fod ar gael yn rhwydd, gan gynnwys drwy hysbysu pobl i ofyn i aelod o staff, ar yr adeg pan fo'r unigolyn sy'n bwriadu prynu'r cynnyrch yn ei ddewis.

Beth yw bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol?

Gan nad yw'r FIC yn rhoi diffiniad penodol o fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol, rydym ni'n disgwyl i fusnesau ac awdurdodau lleol ddilyn y dehongliad a nodir yng nghanllawiau technegol yr ASB ar labelu alergenau a ddarperir isod.

"Bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol: Mae hyn yn berthnasol i fwyd sydd wedi'i becynnu ar yr un safle y caiff ei werthu. Caiff bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol ei drin yn yr un ffordd â bwyd nad yw wedi'i becynnu ymlaen yn narpariaethau labelu FIC yr UE. I gynnyrch fod yn un sydd 'wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol', gall un neu fwy o'r canlynol fod yn berthnasol:

- *Disgwylir y gall y cwsmer siarad â'r person a oedd yn gyfrifol am baratoi neu becynnu'r cynnyrch er mwyn gofyn am gynhwysion.*
- *Gallai bwyd a allai ddod o dan y categori hwn gynnwys pasteiod cig wedi'u paratoi ar y safle a brechdanau wedi'u paratoi a'u gwerthu o'r un safle¹."*

Enghreifftiau o fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol

Gall bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol fod ar gael i ddefnyddwyr mewn sefydliadau bwyd ac mewn siopau.

Mewn sefydliad bwyd megis siop frechdanau, caffi neu far byrgyrs, byddai unrhyw fwyd sy'n cael ei becynnu ymlaen llaw ar y safle gan ragweld archeb, cyn cael ei roi ar werth, yn cael ei ystyried yn fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol. Gall enghreifftiau gynnwys bwyd y mae'r defnyddiwr yn dewis ei hun o gabinet oeri neu y mae'n holi aelod o staff amdano. Er enghraifft, brechdan neu flwch salad sy'n cael ei arddangos y tu ôl i gownter. Gall bwyd sy'n cael ei archebu a'i gasglu'n bersonol gan ddefnyddiwr mewn tecawê fod yn fwyd sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol os cafodd ei becynnu cyn iddo gael ei gynnig i'w werthu, er enghraifft, byrgyr wedi'i lapio, cyw iâr wedi'i ffrio mewn blwch neu wedges o dan lamp boeth².

¹ <https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/food-allergen-labelling-technical-guidance.pdf>

² Caiff darparu gwybodaeth am alergenau ar gyfer bwydydd a werthir trwy Gyfathrebu o Bell ei lywodraethu gan Erthygl 14 o'r FIC. Nid yw Erthygl 14 yn caniatáu ar gyfer Mesurau Cenedlaethol o ran sut y darperir gwybodaeth am alergenau. Wrth archebu ar-lein megis archebion uniongyrchol ar-lein neu ffonio tecawê neu archebu o fwyty yn ogystal ag archfarchnadoedd a chanolfannau archebu ar-lein uniongyrchol mae

Mewn amgylchedd manwerthu fel archfarchnad, byddai'r enghreifftiau canlynol hefyd yn cael eu hystyried i fod yn gynhyrchion sydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol, ar yr amod eu bod yn cael eu pecynnu ar y safle lle maent yn cael eu gwerthu cyn iddynt gael eu cynnig i'w gwerthu:

- Pizzas ffres (heb eu coginio) o'r cownter deli;
- Salad mewn blychau;
- Bwydydd poeth fel cyw iâr rotisserie neu *wedges*;
- Bwydydd sy'n cael eu pwysu a'u pecynnu ymlaen llaw fel caws neu gig o gownter delicatessen neu nwyddau wedi'u pobi o fecws yn y siop.

Bwydydd nad ydynt wedi'u pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol

Nid yw'r canlynol yn fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol ond yn hytrach yn rhai sydd wedi'u pecynnu ar y safle gwerthu ar gais y defnyddiwr:

- Bwydydd sydd wedi'u paratoi'n ffres a'u lapio ar ôl i'r defnyddiwr archebu, er enghraifft, brechdan neu fyrgyr sy'n cael ei baratoi a'i lapio yn ôl archeb.
- Bwyd sydd wedi'i baratoi ymlaen llaw ond heb ei becynnu ymlaen llaw, er enghraifft brechdan neu sleis o pizza sydd wedi'i baratoi yn y bore a'i arddangos y tu ôl i gownter wrth baratoi ar gyfer cinio prysur ac yna'i lapio ar gyfer y defnyddiwr wrth iddo archebu.

Nid yw bwyd heb ei becynnu, fel eitemau rhydd a werthir i'r defnyddiwr heb ddeunydd pecynnu a phrydau a weinir mewn bwyty neu gaffi, yn fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol na bwyd sydd wedi'i becynnu ar gais y defnyddiwr.

3. Cwmpas yr ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar gryfhau'r ddarpariaeth o wybodaeth orfodol am alergenau ar gyfer bwyd sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol.

Prif amcan y polisi yw gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei darparu i ddefnyddwyr am alergenau bwyd sy'n bresennol mewn bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol, fel eu bod yn fwy hyderus bod y bwyd yma'n ddiogel.

Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd y gwahaniaeth a wneir yn y FIC a'r FIR ynghylch darparu gwybodaeth am alergenau bwyd rhwng bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw a bwyd sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol. Hynny yw, fod angen labelu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw gyda'r holl gynhwysion, gan bwysleisio unrhyw un o'r 14 alergen bwyd penodol, er enghraifft, mewn print trwm. Ond ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol, rhoddir caniatâd i ddarparu'r wybodaeth am

gofyn iddynt ddarparu gwybodaeth am alergenau i'r defnyddiwr wrth archebu "*ar y deunydd sy'n ategu'r*" gwerthu o bell neu "*trwy dulliau priodol eraill*" ac wrth i'r bwyd gael ei ddosbarthu.

gynhwysion alergenau ar lafar neu yn ysgrifenedig. Mae pryderon wedi codi y gall fod yn anodd i ddefnyddwyr wahaniaethu rhwng bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw a bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol, ac mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod defnyddwyr yn cymryd yn ganiataol bod diffyg gwybodaeth am alergenau ar ddeunydd becynnu bwyd yn golygu nad oes alergenau bwyd wedi'u cynnwys yn y cynnyrch, a allai fod yn anghywir yng nghyd-destun bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol.

Tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad

Mae'r materion canlynol y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn:

- Rheoleiddio datganiadau Labelu Alergenau Rhagofalus (PAL) i nodi presenoldeb anfwriadol alergenau bwyd o ganlyniad i groeshalgi.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin yn benodol â darparu gwybodaeth am alergenau o ran cynhwysion bwriadol mewn bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol. Mae canllawiau'r ASB ar PAL yn cynghori y dylid ond ei ddefnyddio pan fo risg gwirioneddol, wedi'i asesu, nad oes modd ei osgoi drwy ddilyn arfer gweithgynhyrchu da.

- Darpariaeth labelu alergenau ar gyfer bwyd nad yw wedi'i becynnu ymlaen llaw wedi'i archebu drwy werthu o bell, er enghraifft pizza tecawê wedi'i archebu dros y ffôn neu ar y we.

O dan y FIC, mae'n rhaid i wybodaeth orfodol am alergenau ar gyfer bwyd nad yw wedi'i becynnu ymlaen llaw a werthir o bell gael ei darparu i'r cwsmer, pan fo'n archebu, ar y deunydd sy'n cyd-fynd â'r gwerthu o bell neu drwy ddulliau priodol eraill, yn ogystal â'r adeg y dosbarthir y bwyd.

- Bwyd heb ei becynnu (megis prydau a weinir mewn bwyty neu gaffi), a bwyd wedi'i becynnu ar y safle lle caiff ei werthu ar gais y cwsmer (megis brechdan wedi'i pharatoi o flaen y cwsmer, caws neu gig a werthir yn rhydd o gownter delicatessen neu fara neu basteiod a werthir mewn siopau bara).

Mae disgwyliad y bydd defnyddwyr yn siarad â staff am eu gofynion alergedd fel y gallant wneud dewisiadau bwyd diogel dan yr amgylchiadau hyn, gan nad yw bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw ar yr adeg y mae'r defnyddwyr yn gwneud eu dewis. Er enghraifft, efallai y bydd defnyddwyr yn gofyn i addasu'r bwyd, fel neilltuo cynhwysyn, cyn caiff y bwyd ei becynnu a'i werthu. Mae gan y defnyddiwr gyfrifoldeb i roi gwybod i fusnesau bwyd am ei alergedd neu ei anoddefiad bwyd, ac mae hi'n ofyniad cyfreithiol i'r busnes roi gwybodaeth glir a chywir am alergenau bwyd sy'n golygu bod cyfrifoldeb ar y ddwy ochr i helpu i ddewis bwyd yn ddiogel. Er mwyn annog yr arfer hwn, lansiodd yr ASB yr ymgyrch #HawddHoli a gefnogwyd gan grwpiau o bobl yn dioddef o alergeddau

er mwyn atgoffa busnesau bwyd i ofyn i gwsmeriaid am anghenion deietegol ac i roi'r grym i bobl ifanc yn benodol i ofyn am alergenau wrth fwyta allan.

Dros y tymor hwy, mae gennym gyfle i adolygu'r holl reolau labelu bwyd pan fydd y DU wedi ymadael â'r UE.

4. Dewisiadau polisi

Drwy'r ymgynghoriad hwn rydym ni'n ceisio barn ar ddewisiadau polisi rheoleiddiol yn ogystal â rhai nad ydynt yn rheoleiddiol, i wella'r ddarpariaeth o wybodaeth am alergenau i ddefnyddwyr ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol. Mae Asesiad Effaith wedi'i baratoi i asesu effaith arfaethedig y dewisiadau polisi hyn ar randdeiliaid perthnasol. Er nad ydym ni'n disgwyl y bydd unrhyw gost i ddefnyddwyr, mae'n bosibl y gallai busnesau ddewis trosglwyddo unrhyw gynnydd mewn costau a all godi i ddefnyddwyr. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am yr effeithiau a ddisgwylir ar gyfer pob dewis yn adrannau cyfatebol yr Asesiad Effaith.

Prif amcan y polisiau yw gwella'r ddarpariaeth o wybodaeth i ddefnyddwyr am alergenau bwyd sy'n bresennol mewn bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol. Mae'r holl ddewisiadau wedi'u bwriadu i fynd i'r afael â'r amcan polisi, drwy amrywiaeth o ddulliau rheoleiddiol a rhai nad ydynt yn rheoleiddiol. Mae bob dewis yn ystyried amryw fesurau y gellid eu rhoi ar waith i liniaru pryderon defnyddwyr yn ymwneud â gwybodaeth am alergenau ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol. Mae dewisiadau 1 i 4 yn cynrychioli graddfa lithro yn symud o fesurau nad ydynt yn rhai rheoleiddiol i fesurau mwy rheoleiddiol eu natur. Bwriad dewis 1 yw codi hyder defnyddwyr heb ymyrraeth reoleiddiol, drwy annog newidiadau i arferion busnes ynghylch alergenau ac ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth ar gyfer defnyddwyr sydd ag alergedd. Mae dewisiadau 2 i 4 yn ystyried manteisio i'r eithaf ar fesurau rheoleiddiol er mwyn cyflawni'r un amcan, sef gwella'r ddarpariaeth o wybodaeth i ddefnyddwyr.

Rydym ni wedi ystyried amrywiaeth eang o ddewisiadau polisi gyda rhanddeiliaid a gallwn gadarnhau nad oes unrhyw ddewis a allai fod yn hyfyw wedi'i ddiystyru o werthusiad manwl heb resymau sylweddol. Caiff y dewisiadau polisi ar gyfer cryfhau fframwaith darparu gwybodaeth am alergenau'r DU eu crynhoi isod. Noder nad oes angen ystyried pob dewis ar ei ben ei hun; gellir cyfuno dewisiadau, er enghraifft, gall y dewis nad yw'n un rheoleiddiol adeiladu ar ddewisiadau rheoleiddiol mewn hierarchaeth sy'n cynyddu, neu gellir defnyddio gwahanol ddewisiadau ar gyfer busnesau o wahanol feintiau drwy ddull dwy haen. Nid yw'r llywodraeth yn cyflwyno dewis polisi a ffefrir ar hyn o bryd.

Dewis nad yw'n un rheoleiddiol

Dewis polisi 1 – Hyrwyddo arfer gorau

Ni fyddai angen newid deddfwriaeth drwy ddewis y dewis hwn. Ond, byddai creu newid yn golygu gweithgarwch ychwanegol i hyrwyddo arfer gorau o fewn y fframwaith presennol i annog busnesau a defnyddwyr i adolygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u gweithredoedd i sicrhau amgylchedd mwy diogel i ddefnyddwyr. Byddai'n cwmpasu arfer gorau ar gyfer yr holl fwydydd nad ydynt wedi'u pecynnu ymlaen llaw, gan gynnwys bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol. Gall dewisiadau ar gyfer hyrwyddo arfer gorau gynnwys y canlynol:

- Canllawiau arfer gorau ar gyfer y sector arlwyo i'w cyflwyno gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban ac ar gael i'r holl awdurdodau lleol.
- Cynhadledd gyda rhanddeiliaid ar draws y diwydiant yn cynnwys busnesau, wedi'i chynnal gan Defra, yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban i drafod arfer gorau ac i annog newid heb newid y deddfwriaeth.
- Ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus i dynnu sylw at wybodaeth am alergenau a chodi ymwybyddiaeth busnesau bwyd a'r cyhoedd.

Prif fuddiannau'r dewis hwn yw y gallai gymryd llai o amser i'w gynllunio a'i weithredu o'i gymharu â newid deddfwriaeth, a gellir ei addasu er mwyn parhau i fod yn addas at y diben. Gall busnesau barhau i fod mor hyblyg â phosibl wrth ddarparu gwybodaeth am alergenau ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol mewn ffordd sydd fwyaf addas ar gyfer eu model busnes yn ogystal â chyflawni'r amcanion polisi. Mae rhai busnesau eisoes yn gweithredu i gryfhau'r wybodaeth am alergenau a ddarperir ganddynt. Mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban o'r farn bod ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus/arfer gorau yn hanfodol, beth bynnag fo canlyniad yr adolygiad hwn. Mewn cysylltiad â hyn, mae'r ASB wedi lansio'r ymgyrch #HawddHoli, ac mae busnesau perthnasol wedi dangos parodrwydd i gynnal ymgyrch fwy swmpus fyth wrth fynd i'r afael â labelu alergenau, a allai godi ymwybyddiaeth yn sylweddol. Bydd Safonau Bwyd yr Alban yn ystyried pa waith ychwanegol all fod ei angen o ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Gan nad yw hwn yn fesur rheoleiddiol, nid oes unrhyw sicrwydd y bydd busnesau'n newid eu harferion.

Dewisiadau rheoleiddiol

Dewis polisi 2 – Labeli "gofynnwch i'r staff" gorfodol ar ddeunydd pecynnu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol, gyda gwybodaeth ategol ar gyfer defnyddwyr yn ysgrifenedig

Pan nad oes rhestr lawn o'r cynhwysion ar gael, na rhestr o'r cynhwysion sydd yn y cynnyrch ar y deunydd pecynnu, byddai bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol yn cynnwys label/sticer ar y deunydd pecynnu yn cynghori defnyddwyr i ofyn i'r staff am alergenau. Pan ofynnir i staff am alergenau, byddai angen i staff ddarparu gwybodaeth ategol yn ysgrifenedig ar gais, cyn i'r bwyd gael ei brynu. Byddai'r wybodaeth hon yn cynnwys naill ai:

- Rhestr o unrhyw un o'r 14 alergen sydd wedi'u cynnwys yn y cynnyrch penodol; neu
- Restr lawn o'r cynhwysion gan bwysleisio'r alergenau.

Ni fyddai'r sticer hwn yn cael gwared ar yr angen i fusnesau ddangos yn glir i ddefnyddwyr sut y bydd gwybodaeth am alergenau ar gael ar gyfer bwyd arall nad yw wedi'i becynnu ymlaen llaw. Dyma enghraifft o sut y byddai'r sticer yn edrych:



O'r dewisiadau rheoleiddiol a gynigir, dyma'r dewis rhataf i'w weithredu (gweler yr asesiad effaith) ac mae eisoes yn cael ei gyflwyno gan nifer o fusnesau. Byddai'n sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu hatgoffa'n gyson i fod yn rhagweithiol a siarad â staff am alergenau wrth ddewis bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos y byddai'n normaleiddio ac yn annog defnyddwyr sydd ag alergedd bwyd i fod yn rhagweithiol wrth siarad â staff am eu gofynion alergedd, fel y gallant wneud dewisiadau bwyd diogel.

Fodd bynnag, mae risgiau yn ymwneud â'r dewis hwn yn cynnwys methu â darparu gwybodaeth ddigonol i'r defnyddwyr hynny nad ydynt yn ddigon hyderus i holi staff, diffyg staff wedi'u hyfforddi'n briodol, a'r risg posibl os caiff y bwyd ei gludo o'r safle a'i roi i ddefnyddiwr trydydd parti sydd ag alergedd bwyd. Yn annhebyg i'r dewisiadau rheoleiddiol eraill, nid yw'r dewis hwn yn peri risg o ran cam-labelu ar ddeunydd pecynnu'r cynnyrch, ond mae risg y gall yr wybodaeth ysgrifenedig a ddarperir ar gais fod yn anghywir. Mae'r risg hon yn berthnasol i'r holl ddewisiadau sy'n rhoi gwybodaeth am alergenau yn ysgrifenedig, gan gynnwys dewis 3 a 4.

Dewis polisi 3 – Ei gwneud hi'n orfodol labelu enw'r bwyd a'r alergenau ar ddeunydd pecynnu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol

Mae'r dewis hwn yn cyflwyno mesur rheoleiddiol sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol gael label ar y deunydd pecynnu i roi gwybod i'r defnyddiwr beth yw enw'r bwyd a pha un o'r 14 cynhwysyn alergenaid a restrir ar Atodiad II y FIC y mae'r cynnyrch yn eu cynnwys yn fwriadol.

Bydd hi'n haws i fusnesau weithredu'r dewis hwn na labelu'r holl gynhwysion, ond mae'n ddrytach na dewis 2. Mae'n rhoi gwybodaeth glir i ddefnyddwyr sy'n benodol i'r cynnyrch ar ddeunydd pecynnu'r bwyd, gan alluogi defnyddwyr sydd ag alergedd bwyd i wneud dewisiadau gwybodus wrth brynu cynhyrchion bwyd. Hefyd, pan fydd y defnyddiwr yn mynd â'r bwyd o'r safle i'w fwyta yn hwyrach neu i'w roi i drydydd parti, mae'r wybodaeth am alergenau bwyd ar gael ar y deunydd pecynnu. Mae'r dewis hwn hefyd yn caniatáu i fusnesau amnewid rhai cynhwysion nad ydynt yn rhai alergenaid heb orfod newid y label ar y deunydd pecynnu.

Efallai y bydd risgiau yn gysylltiedig â'r dewis hwn a gall fod yn heriol ei weithredu'n gywir, yn enwedig ar gyfer busnesau bach a micro, a fyddai'n gorfod ysgwyddo costau gweinyddol, offer a hyfforddi ychwanegol. Er enghraifft, bydd yn cynyddu costau i fusnesau gan y byddai deunydd pecynnu cyffredinol yn gorfod diflannu neu gynnwys label ychwanegol. Gan mai cam-labelu yw'r prif reswm dros alw cynhyrchion wedi'u pecynnu ymlaen llaw yn ôl, gallai ychwanegu label beri risg o ddigwyddiadau cam-labelu, yn enwedig mewn ceginau prysur lle mae cynhyrchion yn cynnwys gwahanol alergenau bwyd yn cael eu paratoi yr un pryd. Gan fod defnyddwyr yn ymddiried mewn labeli, gallai hyn achosi mwy o ddigwyddiadau oherwydd gall defnyddwyr fwyta bwyd wedi'i becynnu gyda'r label anghywir ac o bosibl gall annog pobl i beidio â gofyn i staff. Hefyd, ni fydd pobl sydd ag alergedd at gynhwysion nad ydynt ar y rhestr o'r 14 cynhwysyn alergenaid a nodir yn Atodiad II y FIC, yn elwa ar ddewis 3. Ar y cyfan, mae llai o risg o gam-labelu ar gyfer y dewis hwn o'i gymharu â dewis 4. Hefyd, gall y dewis hwn arwain at fusnesau yn tynnu rhai bwydydd o'u bwydlenni neu beidio â newid llawer ar fwydlenni (e.e. bwydlenni cynigion arbennig), felly'n cynnig llai o ddewisiadau i ddefnyddwyr yn gyffredinol. Gall fod angen sefydlu prosesau labelu newydd ar safleoedd busnes a byddai angen hyfforddiant sylweddol i staff, er mwyn sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau i weithredu gweithdrefnau labelu alergenau yn gywir. Gall y dewis hwn ysgogi newidiadau mewn arferion busnes e.e. pecynnu bwyd ar y safle ar gais y defnyddiwr yn lle defnyddio bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol.

Dewis polisi 4 – Ei gwneud hi'n orfodol cael label gydag enw'r bwyd a rhestr lawn o'r cynhwysion, gan bwysleisio'r alergenau, ar ddeunydd pecynnu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol

Mae'r dewis hwn yn cyflwyno mesur rheoleiddiol sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol gael label yn enwi'r bwyd ac yn rhestru'r holl gynhwysion gan bwysleisio'r alergenau ar y deunydd pecynnu.

Bydd angen i labelu gydymffurfio ag Erthygl 9(1) a - c y FIC.

- a. enw'r bwyd
- b. rhestr o'r cynhwysion
- c. byddai unrhyw gynhwysyn neu gymorth prosesu a restrir yn Atodiad II y FIC neu sy'n deillio o sylwedd neu gynnyrch a restrir yn Atodiad II sy'n achosi alergeddau neu anoddefiadau a ddefnyddir yn y broses weithgynhyrchu neu wrth baratoi bwyd ac sydd dal i fod yn bresennol yn y cynnyrch gorffenedig, hyd yn oed os yw mewn ffurf wedi'i haddasu, yn cael ei bwysleisio er mwyn bod yn amlycach na'r cynhwysion eraill ar y rhestr.

Mae'r dewis hwn yn cyflwyno dull cyson tuag at labelu cynhwysion ar gyfer bwyd sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol. Gall olygu bod defnyddwyr sydd ag alergedd bwyd yn ymddiried mwy yn y bwyd maent yn ei fwyta a helpu defnyddwyr gydag alergeddau ac anoddefiadau bwyd y tu hwnt i'r mesurau a ddiffinnir yn orfodol yn y FIC. Nid yw'n dibynnu ar staff yn gorfod darparu gwybodaeth gywir am alergenau yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, ond bydd angen proses labelu ar y safle, a bydd angen i staff gael hyfforddiant digonol i weithredu gweithdrefnau labelu yn gywir. Yn yr un modd â dewis 3, byddai labelu'r holl gynhwysion yn cynyddu costau i fusnesau gan y byddai'n rhaid i ddeunydd pecynnu cyffredinol ddiflannu neu gynnwys labelu ychwanegol. Gall ychwanegu label beri risg o ddigwyddiadau cam-labelu, yn enwedig mewn ceginau prysur lle caiff cynhyrchion sy'n cynnwys gwahanol alergenau eu gwneud yr un pryd, ac mae'r dewis hwn yn peri'r risg fwyaf o ran cam-labelu. Gan fod defnyddwyr yn ymddiried mewn labeli, gallai'r dewis hwn achosi rhagor o ddigwyddiadau oherwydd gall defnyddwyr fwyta bwyd wedi'i becynnu sydd â'r label anghywir. Gall y dewis hwn arwain at fusnesau'n cael gwared ar rai bwydydd o'u bwydlenni neu beidio â newid llawer ar fwydlenni (e.e. cynigion arbennig), er mwyn osgoi costau labelu ychwanegol, gan leihau dewis i ddefnyddwyr o bosib. Hefyd, gall cost labelu llawn atal arloesi a datblygu cynnyrch newydd a gall gyfyngu ar brynu ac argaeledd yn y gadwyn cyflenwi bwyd.

5. Cwestiynau

Adran 1 – Amdanoch chi

1. A hoffech i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?

- a. Hoffwn
- b. Na hoffwn

Os ateboch 'hoffwn' i'r cwestiwn hwn, nodwch eich rheswm.

2. Beth yw eich enw?

3. Beth yw eich cyfeiriad e-bost?

4. Dywedwch wrthym ar ran pwy rydych chi'n ymateb?

- a. Unigolyn - rydych chi'n ymateb gyda'ch barn bersonol, yn hytrach na chynrychiolydd swyddogol busnes / cymdeithas fusnes / sefydliad arall.
- b. Sefydliad anllywodraethol – mewn rhinwedd swyddogol yn cynrychioli sefydliad anllywodraethol / undeb llafur / sefydliad academaidd / sefydliad arall.
- c. Busnes – mewn rhinwedd swyddogol yn cynrychioli barn busnes unigol.
- d. Corff sector cyhoeddus – mewn rhinwedd swyddogol yn cynrychioli sefydliad llywodraeth leol / darparwr gwasanaeth cyhoedd / corff sector cyhoeddus arall yn y DU neu rywle arall.

Os ydych chi'n ymateb fel unigolyn

5. Faint oed ydych chi?

- a. 0-15
- b. 16-24
- c. 25-34
- d. 35-44
- e. 45-54
- f. 55-64
- g. 65-74
- h. 75-84
- i. 85+

6. Pa wlad yn y DU ydych chi'n byw ynddi?

- a. Lloegr
- b. Cymru
- c. Yr Alban
- d. Gogledd Iwerddon

7. Oes gennych chi neu aelod o'ch teulu unrhyw alergeddau neu anoddefiadau bwyd?

- a. Oes
- b. Nac oes

Os ydych chi'n ymateb fel sefydliad, busnes neu gorff cyhoeddus

8. Beth yw enw eich busnes / sefydliad?

9. Lle mae eich busnes/sefydliad yn gweithredu?

- a. Lloegr
- b. Cymru

- c. Yr Alban
- d. Gogledd Iwerddon

Os ydych chi'n fusnes

10. Beth yw maint eich busnes?

- a. Micro (9 cyflogai neu lai)
- b. Bach (10 – 49 o gyflogeion)
- c. Canolig (50 – 249 o gyflogeion)
- d. Mawr (250+ o gyflogeion)

11. Ydych chi'n gwerthu cynhyrchion sydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol fel y diffinnir yng nghanllawiau'r ASB³?

- a. Ydw/ydym
- b. Nac ydw/nac ydym

Os ydych chi, atebwch gwestiynau 12 i 14. Os nad ydych chi, ewch i gwestiwn 15.

12. Tua faint o unedau cadw stoc unigol⁴ o gynhyrchion wedi'u pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol ydych chi'n eu stocio bob dydd? (os oes gennych chi gynhyrchion tymhorol, ystyriwch y cyfartaledd drwy'r flwyddyn)

- a. 1-10
- b. 11-19
- c. 20-29
- d. 30-49
- e. Mwy na 50

13. Pa gyfran o gyfanswm yr unedau a werthwyd yw hyn?

- a. Llai na 10%
- b. 10-29%
- c. 30-49%
- d. 50-69%
- e. 70-89%
- f. 90% neu fwy

³ <https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/food-allergen-labelling-technical-guidance.pdf>

⁴ Mae uned cadw stoc yn fath arbennig o eitem i'w gwerthu ac mae'r holl nodweddion sy'n gysylltiedig â'r math o eitem yn ei wahaniaethu o fathau eraill o eitemau.

14. Pa ddulliau darparu gwybodaeth am alergenau yr ydych chi'n eu darparu ar hyn o bryd ar gyfer cynhyrchion wedi'u pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol?

- a. Darparu gwybodaeth ar lafar gydag ysgogiadau gweledol yn y siop
- b. Gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i ddefnyddwyr ar gais
- c. Gwybodaeth am alergenau wedi'i hysgrifennu i'w gweld rhywle yn y siop
- d. Gwybodaeth am alergenau ar gynhyrchion neu wrth eu hymyl
- e. Rhestr lawn o'r cynhwysion ar y label
- f. Arall, nodwch

Rhowch fanylion ychwanegol

Adran 2 – Diffiniad o fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol

Mae'r FIC yn diffinio bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw, a bwyd nad yw wedi'i becynnu ymlaen llaw, ond nid yw'n darparu esboniad penodol o fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol. At ddiben yr ymgynghoriad hwn, rydym ni'n defnyddio dehongliad yr ASB isod o fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol.

"Bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol: Mae hyn yn berthnasol i fwyd sydd wedi'i becynnu ar yr un safle y caiff ei werthu. Caiff bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol ei drin yn yr un ffordd â bwyd nad yw wedi'i becynnu ymlaen yn narpariaethau labelu FIC yr UE. I gynnyrch fod yn un sydd 'wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol', gall un neu fwy o'r canlynol fod yn berthnasol:

- *Disgwylir y gall y cwsmer siarad â'r person a oedd yn gyfrifol am baratoi neu becynnu'r cynnyrch er mwyn gofyn am gynhwysion.*
- *Gallai bwyd a allai ddod o dan y categori hwn gynnwys pasteiod cig wedi'u paratoi ar y safle a brechdanau wedi'u paratoi a'u gwerthu o'r un safle."*

15. Ydych chi'n cytuno â'r dehongliad hwn?

- a. Ydw
- b. Nac ydw

A fyddech chi cystal â chyfiawnhau eich ymateb. Os ateboch chi 'nac ydw' i gwestiwn 15, nodwch unrhyw ffactorau eraill yr ydych chi'n credu y dylid eu hystyried wrth benderfynu a yw cynnyrch wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol ai peidio.

16. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth am alergenau ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol. Ydych chi'n credu y dylai'r llywodraeth ystyried adolygu yn y dyfodol y ffordd y caiff gwybodaeth am alergenau ei chyflwyno i ddefnyddwyr ar gyfer mathau eraill o fwyd nad yw wedi'i becynnu ymlaen llaw?

- a. Dylai
- b. Na ddylai

Os dylai, atebwch gwestiwn 17. Os na ddylai, ewch i gwestiwn 18.

17. Pa fathau eraill o fwyd ddylai'r Llywodraeth eu hadolygu?

- a. Bwyd wedi'i becynnu ar y safle gwerthu ar gais y cwsmer
- b. Bwyd heb ei becynnu, megis eitemau rhydd a werthir i'r cwsmer heb ddeunydd becynnu a phrydau a weinir mewn bwyty neu gaffi
- c. Bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw wedi'i archebu drwy werthu o bell, er enghraifft pizza tecawê wedi'i archebu dros y ffôn neu ar y we
- d. Arall

A fyddech chi cystal â chyfiawnhau eich ymateb.

Adran 3 – Dewisiadau polisi

18. Beth yw'r dewis polisi a ffefrir gennych chi a pham?

- a. Dewis 1
- b. Dewis 2
- c. Dewis 3
- d. Dewis 4
- e. Cyfuniad o ddewisiadau
- f. Nid wyf yn ffafrio unrhyw ddewis
- g. Nid wyf yn cytuno ag unrhyw dewis polisi
- h. Nid oes gennyf ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad

A fyddech chi cystal â chyfiawnhau eich ymateb.

Os dewisoch 'e'

19. Gwnaethoch chi nodi eich bod yn ffafrio cyfuniad o ddewisiadau polisi. Pa gyfuniad fyddai'n well gennych chi?

- a. 2 a 3 yn seiliedig ar faint y busnes
- b. 2 a 4 yn seiliedig ar faint y busnes
- c. 3 a 4 yn seiliedig ar faint y busnes
- d. Arall, rhowch fanylion

Os dewisoch a, b neu c

20. Os gwnaethoch chi nodi eich bod yn ffafrio dull dwy haen yn seiliedig ar faint busnesau, ydych chi'n credu y dylai'r dewis haen isaf fod yn berthnasol i fusnesau micro yn unig, neu fusnesau bach a micro?

- a. Micro
- b. Bach a Micro

21. Mae dewis polisi 1 yn amlinellu gweithgarwch ychwanegol i hyrwyddo arfer gorau o fewn y fframwaith presennol er mwyn annog busnesau ac i adolygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u gweithredoedd i sicrhau amgylchedd mwy diogel i ddefnyddwyr. Gall y dewisiadau hyn gynnwys:

- Canllawiau arfer gorau ar gyfer y sector arlwyio i'w llunio gan yr ASB a fydd ar gael i bob awdurdod lleol;
- Cynhadledd gydag amrywiaeth o randdeiliaid yn cynnwys busnesau, wedi'i chynnal gan Defra a'r ASB i drafod arfer gorau ac i annog newid heb ddiwygio'r ddeddfwriaeth;
- Ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus i dynnu sylw at wybodaeth am alergenau a chodi ymwybyddiaeth busnesau bwyd a'r cyhoedd.

Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer beth y gellid ei gynnwys i hyrwyddo arfer gorau a sut y gall y Llywodraeth gefnogi busnesau i gyflawni hyn? Nodwch enghreifftiau sydd o bosib yn cael eu defnyddio gan fusnesau ar hyn o bryd.

22. Ydych chi'n credu y dylid cyfuno'r gwaith o hyrwyddo arfer gorau gyda dewisiadau polisi eraill?

- a. Ydw
- b. Nac ydw
- c. Arall, rhowch fanylion

23. Mae dewis 2 yn ei gwneud hi'n ofynnol cael labeli "gofynnwch i'r staff" ar ddeunydd pecynnu bwyd wedi'i baratoi ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol yn ogystal â gofyniad i wybodaeth ategol fod ar gael yn ysgrifenedig i ddefnyddwyr. Ydych chi'n credu y dylai'r wybodaeth ysgrifenedig gynnwys gwybodaeth am alergenau yn unig, neu restr lawn o'r cynhwysion?

- a. Gwybodaeth am alergenau yn unig
- b. Rhestr lawn o'r cynhwysion
- c. Nid wyf yn ffafrio un dros y llall
- d. Ddim yn gwybod

A fyddech chi cystal â chyfiawnhau eich ymateb.

24. Ar gyfer labelu'r holl gynhwysion (dewis 4), ydych chi'n credu y dylid pwysleisio alergenau (e.e. testun trwm) yn unol â rheoliadau'r FIC ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw?

- a. Dylid
- b. Na ddylid

25. Rydym ni wedi cynnig nifer o ddewisiadau polisi i wella'r ddarpariaeth o wybodaeth am alergenau ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol. Oes dewisiadau eraill nad ydynt wedi'u cynnig y dylem eu hystyried? Er enghraifft, ei gwneud hi'n orfodol cael gwybodaeth ysgrifenedig yn nodi pa un o'r 14 alergen a all fod yn bresennol mewn cynhyrchion ar y safle.

- a. Oes
- b. Nac oes

Os oes, rhwch fanylion pa ddewis arall yr hoffech chi ei weld i wella'r ddarpariaeth o wybodaeth am alergenau ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol.

Adran 4 – Diffiniad o faint busnes, eithriadau a gweithredu

26. At ddiben yr ymgynghoriad hwn, rydym ni'n diffinio maint busnes yn seiliedig ar nifer y gweithwyr yn unol â'r categorïau isod. Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad hwn?

- Micro (0-9 o weithwyr)
- Bach (10-49 o weithwyr)
- Canolig (50-249 o weithwyr)
- Mawr (250+ o weithwyr)

- a. Ydw
- b. Nac ydw

Os nad ydych chi

27. Pa feini prawf y byddech chi'n eu hawgrymu i ni eu defnyddio i ddiffinio maint busnes?

- a. Nifer y siopau/canghennau
- b. Trosiant
- c. Nifer yr unedau a werthwyd
- d. Arall, rhwch fanylion

Rhowch fanylion am eich lefelau trothwy arfaethedig ar gyfer busnesau micro, bach, canolig a mawr.

28. Oes unrhyw ddewisiadau polisi y dylai busnesau bach a micro gael eu heithrio rhagddynt yn eich barn chi?

- a. Nac oes, rwy'n credu y dylai pob busnes gael eu cynnwys ym **mhob** dewis polisi
- b. Rwy'n credu y dylai busnesau micro gael eu heithrio rhag **pob** dewis polisi
- c. Rwy'n credu y dylai busnesau micro a bach gael eu heithrio rhag **pob** dewis polisi
- d. Rwy'n credu y dylai busnesau bach a micro gael eu heithrio rhag **rhai** dewisiadau polisi
- e. Rwy'n credu y dylai busnesau micro gael eu heithrio rhag **rhai** dewisiadau polisi

Os ydych chi wedi dewis 'd' neu 'e'

29. Pa ddewisiadau polisi ydych chi'n credu y dylai busnesau bach a micro gael eu heithrio rhagddynt?

A fyddech chi cystal â chyfiawnhau eich ymateb

30. Faint o amser dylid ei roi i fusnesau weithredu'r polisi newydd yn eich barn chi?

	Llai na 6 mis	6 mis i flwyddyn	Blwyddyn i ddwy flynedd	Hyd at dair blynedd	Hyd at bum mlynedd
Dewis 1					
Dewis 2					
Dewis 3					
Dewis 4					

A fyddech chi cystal â chyfiawnhau eich ymateb

Adran 5 – Aseiad effaith

31. Rydym ni wedi amcangyfrif bod 7,785 o fusnesau yn y DU sy'n gwerthu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol yn bennaf, fodd bynnag mae gennym ddata cyfyngedig am y sector hwn, ac felly mae'n anodd sefydlu pa fusnesau fydd yn cael eu heffeithio gan unrhyw newidiadau i reoliadau ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol. Ydych chi'n cytuno â'r amcangyfrifiad? Os ydych chi'n ateb 'nac ydw', darparwch dystiolaeth ategol yn ymwneud â maint neu gyfansoddiad y farchnad bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol.

- a. Ydw, rwy'n cytuno
- b. Nac ydw, (darparwch dystiolaeth ategol)

32. Yn ôl dewis 2, mae'n rhaid darparu gwybodaeth am alergenau i ddefnyddwyr ar gais. Mae'r gost hon yn un heb ei moneteiddio ar hyn o bryd, gan ei bod yn aneglur i ba raddau y mae busnesau eisoes yn darparu'r wybodaeth hon ar eu safleoedd. Oes gennych chi unrhyw wybodaeth ategol i'n helpu ni i fesur y costau hyn? Nodwch unrhyw dystiolaeth o ran faint o fusnesau sy'n gwneud hyn ar hyn o bryd, ac os ydych chi'n fusnes, p'un a ydych chi'n gwneud hyn ar hyn o bryd a faint mae'n costio i'w wneud?

33. Mae ein cyfrifiadau yn seiliedig ar y costau labelu o waith ymchwil blaenorol, sy'n amlinellu bod mân newidiadau labelu yn costio rhwng £10 a £1,800 fesul uned cadw stoc. Gan uwchraddio'r rhain i brisiau 2018, rydym ni'n tybio bod hi'n costio £10.99 fesul uned cadw stoc i fusnesau bach a micro ail-labelu, a £1978.59 fesul uned cadw stoc i fusnesau canolig a mawr. Ydych chi'n cytuno â'r costau hyn?

- a. Ydw, rwy'n cytuno â'r amcangyfrifon hyn
- b. Nac ydw (darparwch dystiolaeth ategol)

34. Rydym ni wedi rhagdybio y bydd gan fusnes sy'n gwerthu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol 20 o gynhyrchion gwahanol o'r math hwnnw ar gyfartaledd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn seiliedig ar dystiolaeth ar hyn o bryd. Ydych chi'n cytuno â'r rhagdybiaeth hon? Darparwch unrhyw dystiolaeth ategol os yw'n bosibl.

- a. Ydw
- b. Nac ydw

35. Nid oes gennym ddigon o dystiolaeth i gyfrifo'r costau labelu ar gyfer Dewis 4 yn gywir: Labelu'r enw a'r holl gynhwysion. Er hyn, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y byddai'r costau hyn yn uwch na'r dewisiadau eraill. Oes gennych chi unrhyw wybodaeth ategol yn ymwneud â'r costau ar gyfer labelu'r holl gynhwysion?

- a. Oes, nodwch ragor o fanylion
- b. Nac oes

36. Oes unrhyw ragdybiaethau neu gyfrifiadau cost eraill sy'n anghywir, neu y dymunwch gyflwyno gwybodaeth ychwanegol ar eu cyfer?

- a. Oes, nodwch rhagor o fanylion
- b. Nac oes

Os oes, ydych chi'n cyfeirio at ddewis polisi penodol?

- a. Dewis 1
- b. Dewis 2
- c. Dewis 3
- d. Dewis 4
- e. Pob dewis

37. Oes unrhyw gostau nad ydynt wedi'u hystyried?

- a. Oes, rhowch fanylion
- b. Nac oes

Os oes, Ydych chi'n cyfeirio at ddewis polisi penodol?

- a. Dewis 1
- b. Dewis 2
- c. Dewis 3
- d. Dewis 4
- e. Pob dewis

38. A fydd y gost o weithredu unrhyw un o'r dewisiadau polisi yn arwain at newidiadau yn y ffordd y mae busnesau'n gweithredu (er enghraifft, sut y caiff cynhyrchion wedi'u pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol eu gwerthu, eu paratoi ymlaen llaw neu eu pecynnu)?

- a. Bydd, rhowch fanylion
- b. Na fydd

Os bydd, ydych chi'n cyfeirio at ddewis polisi penodol?

- a. Dewis 1
- b. Dewis 2

- c. Dewis 3
- d. Dewis 4
- e. Pob dewis

39. Oes unrhyw effeithiau ar ddefnyddwyr, busnesau neu'r Llywodraeth nad ydynt wedi'u hystyried eto?

- a. Oes, rhowch fanylion
- b. Nac oes

Os oes, ydych chi'n cyfeirio at ddewis polisi penodol?

- a. Dewis 1
- b. Dewis 2
- c. Dewis 3
- d. Dewis 4
- e. Pob dewis

40. Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth neu ddata pellach yr ydych chi'n dymuno ei gyflwyno i ni ei ystyried ar gyfer ein hasesiad effaith terfynol neu unrhyw sylwadau penodol ar y fethodoleg neu'r rhagdybiaethau a wnaed?

- a. Oes, darparwch ragor o dystiolaeth y gellid ei defnyddio i wella ein hamcangyfrifon.
- b. Nac oes

Os oes, ydych chi'n cyfeirio at ddewis polisi penodol?

- a. Dewis 1
- b. Dewis 2
- c. Dewis 3
- d. Dewis 4
- e. Pob dewis

Adran 6 – Rhoi gwybod am ddigwyddiadau sioc anaffylactig nad ydynt yn lladd ("bron â marw")

Os yw rhywun sydd ag alergedd bwyd yn bwyta'r alergen bwyd hwnnw mewn sefydliad arlwygo heb wybod ei fod yn gwneud hynny, gallai gael adwaith alergaidd sy'n arwain at sioc anaffylactig. Os yw'n cael cymorth meddygol ac yn byw, roedd yr unigolyn hwnnw 'bron â marw'. Ar hyn o bryd, nid yw digwyddiadau lle mae amheuaeth o adweithiau alergedd bwyd yn cael eu cyfathrebu'n awtomatig i'r awdurdod lleol perthnasol na'r ASB. O ganlyniad, efallai na roddir gwybod am fusnesau nad ydynt yn cydymffurfio i gyrrff gorfodi a'u bod yn parhau i weithredu. Mae hyn yn peri risg bosibl i iechyd y rhai hynny sydd â gorsensitifrwydd bwyd.

Mae'r ASB wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol yn Swydd Efrog ar gynllun peilot i wella'r system rhoi gwybod am ddigwyddiadau rhwng busnesau, awdurdodau lleol a'r

Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Byddai'r achosion 'bron â marw' a hysbysir yn sbarduno arolygiad brys o'r busnes bwyd gan yr awdurdod lleol perthnasol, i sicrhau bod achosion o ddiffyg cydymffurfio yn cael eu nodi a'u datrys. Hefyd, byddai system o'r fath yn galluogi awdurdodau lleol i weithio gyda Gweithredwyr Busnesau Bwyd penodol er mwyn eu helpu nhw i ddeall yn well eu rhwymedigaethau a'u gofynion a deall arwyddocâd y goblygiadau iechyd ac ariannol posibl o beidio â chydymffurfio.

41. Ar hyn o bryd, nid yw digwyddiadau difrifol o sioc anaffylactig nad ydynt yn achosi marwolaeth o ganlyniad i fwyta/yfed alergen bwyd mewn sefydliad bwyd yn cael eu cyfathrebu'n awtomatig i'r awdurdodau perthnasol. Dyma wahodd eich barn ar sut y gall yr awdurdodau perthnasol (e.e. y GIG, awdurdodau lleol a'r ASB) gydweithio'n well gyda'i gilydd a gyda'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth leol a rhannu data ar ansawdd dulliau busnesau lleol o reoli alergenau bwyd fel y gellir gweithredu arolygiadau'n gyflym.

6. Pam rydym ni'n ymgynghori?

Mae Defra, ochr yn ochr â'r ASB yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, Safonau Bwyd yr Alban a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y cyfnod ymgynghori hwn i sicrhau ein bod wedi gwrandao ar bawb sydd â diddordeb yn y mater, os bydd angen gwneud newidiadau i'r dirwedd bresennol.

Drwy gyhoeddi'r ymgynghoriad hwn, mae Defra, yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn dymuno bodloni'r gofyniad i ymgynghori o dan Erthygl 9 Rheoliad yr UE 178/2002 sy'n nodi egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn nodi'r gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd ac o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Gorchymyn Diogelwch Bwyd (Gogledd Iwerddon) 1991.

7. Sut i ymateb

Dyddiad lansio'r ymgynghoriad: 25 Ionawr 2019

Rydym ni'n annog ymatebwyr i rannu eu barn yn ogystal â'u rhesymeg er mwyn ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer datblygu cynigion terfynol. Nid oes rhaid i'r ymatebwyr ateb yr holl gwestiynau ac felly gallant ddewis y rhai hynny sydd o ddiddordeb penodol iddynt. Gallwch adael y cwestiynau hynny nad ydych chi'n dymuno eu hateb yn wag.

Ymatebwch erbyn 29 Mawrth 2019

Ymatebwch drwy'r arolwg ar-lein (Citizen Space) sydd ar gael drwy'r ddolen ganlynol: <https://consult.defra.gov.uk/agri-food-chain-directorate/consultation-on-amending-allergen-information/>

Os nad ydych chi'n gallu ymateb ar-lein, gallwch wneud cais am gopi o'r arolwg a ffurflen ymateb drwy anfon e-bost at allergenlabellingreview@defra.gsi.gov.uk. Gallwch anfon ymholiadau ac arolygon wedi'u cwblhau i'r cyfeiriad hwn hefyd.

Fel arall, gallwch ymateb drwy'r post i'r cyfeiriad isod, gan nodi ba gwestiwn/cwestiynau yr ydych yn eu hateb:

Tîm Adolygu Labelu Alergenau

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra)

Ystafell 202, Parth 2

1-2 Peasholme Green

Caerefrog

YO1 7PX

Cyfrinachedd a diogelu data

Mae'r ddogfen ymgynghori a'r broses ymgynghori hon wedi eu cynllunio i gydymffurfio â'r Egwyddorion Ymgynghori a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet.

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli, a phan fo'n berthnasol, pwys arall y maent wedi ymgynghori â nhw wrth ddod i gasgliadau pan fyddant yn ymateb.

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys data personol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth, yn bennaf Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018. Mae gennym rwymedigaethau, yn bennaf o dan yr uchod, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynwyr penodol neu i'r cyhoedd dan rai amgylchiadau.

Os ydych am i'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol, fel awdurdod cyhoeddus, fod yr Adran dan rwymedigaeth y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac efallai y bydd yn rhaid iddi ddatgelu'r holl wybodaeth neu rywfaint o'r wybodaeth a ddarperir gennych. O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod yn ystyried yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn ni'n ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ar ei ben ei hun, yn cael ei ystyried fel un sy'n rhwymo.

Caiff yr ymgynghoriad hwn ei gynnal yn unol ag "Egwyddorion Ymgynghori" Swyddfa'r Cabinet. Gellir dod o hyd iddynt yma:

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, cyfeiriwch nhw at:

Cydlynnydd Ymgynghori

Ardal 1C, Llawr 1af

Tŷ Nobel

17 Smith Square,

Llundain, SW1P 3JR.

Neu anfonwch e-bost at: consultation.coordinator@defra.gsi.gov.uk

Rhannu ymatebion

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â newidiadau arfaethedig i Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014 yng Nghymru a rheoliadau tebyg yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n ymgynghoriad ar y cyd ar draws y Deyrnas Unedig (DU) gyda Defra, yr ASB yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, Safonau Bwyd yr Alban a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC). Bydd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu rhannu gyda'r ASB yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, Safonau Bwyd yr Alban a'r DHSC er mwyn helpu i wneud unrhyw newidiadau posibl i'r rheoliadau sydd eu hangen er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd yn y DU.

Atodiad A – Bwyd alergenau

Mae 14 sylwedd neu gynnyrch sy'n achosi alergeddau neu anoddefiadau sy'n cael eu hystyried gan y gyfraith (oni bai eu bod wedi'u heithrio⁵) i fod yn wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu i ddefnyddwyr o dan y FIC. Caiff y gofyniad hwn ei ymestyn i bob bwyd a ddarperir i ddefnyddwyr gan gynnwys bwyd:

- Wedi'i becynnu ymlaen llaw (e.e. bar o siocled, paced o greision wedi'i selio, jar o saws neu gan o gawl);
- Heb ei becynnu ymlaen llaw (e.e. prydau mewn bwytai);
- Wedi'i becynnu ar gais y defnyddiwr (e.e. brechdan deli wedi'i pharatoi ymlaen llaw, wedi'i pheccynnu a'i rhoi i'r cwsmer); neu
- Wedi'i becynnu ymlaen llawn i'w werthu'n uniongyrchol (e.e. brechdan wedi'i pheccynnu ymlaen llaw cyn i'r cwsmer ei dewis).

Os yw cynnyrch bwyd yn cynnwys neu'n defnyddio cynhwysyn neu gymorth prosesu sy'n deillio o un o'r sylweddau neu'r cynhyrchion a restrir isod, bydd angen i'r Gweithredwr Busnes Bwyd ddatgan hynny i'r cwsmer ar ddeunydd pecynnu'r bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol, neu ar gyfer bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw. Gall y Gweithredwr Busnes Bwyd wneud hyn ym mha bynnag ffordd y myn, gan gynnwys ar lafar gan aelod o staff.

1. Grawnfwydydd yn cynnwys glwten, yn bennaf: gwenith (fel gwenith yr Almaen (*spelt*) a gwenith khorasan), rhyg, haidd, ceirch a mathau cyfunol ohonynt a'u cynhyrchion
2. Cramenogion (*crustaceans*) a'u cynhyrchion;
3. Wyau a chynhyrchion wy;
4. Pysgod a'u cynhyrchion,
5. Pysgnau a'u cynhyrchion;
6. Ffa soia a'u cynhyrchion,
7. Llaeth a chynhyrchion llaeth (gan gynnwys lactos),
8. Cnau, yn bennaf: cnau almon, cnau cyll, cnau Ffrengig, cnau cashiw, cnau pecan, cnau Brasil, cnau pistasio, cnau macadamia neu Queensland, a'u cynhyrchion,
9. Seleri a chynhyrchion seleri;
10. Mwstard a chynhyrchion mwstard;
11. Hadau sesame a'u cynhyrchion;
12. Sylffwr deuocsid a sylffitau > 10mg/kg neu 10mg/L;

⁵ Ni fydd rhai cynhwysion a wneir o'r alergenau a restrir uchod yn achosi adwaith alergaidd gan eu bod wedi'u prosesu cymaint (er enghraifft olew soia neu suropau gwlicos gwenith wedi'u puro'n llawn). Y rheswm am hyn yw bod yr alergen/protein wedi'i dynnu allan a bod y cynnyrch wedi'i asesu gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop fel nad yw'n peri risg alergenau i'r defnyddiwr. Mae rhestr lawn o eithriadau ar gael yn [Atodiad II o'r FIC](#)

13. Bys y blaidd (*lupin*) a'u cynhyrchion;
14. Molysgiaid (*molluscs*) a'u cynhyrchion.

Mae'r rhestr hon yn gyson ar draws yr UE ac ni all Aelod-wladwriaethau unigol ei diwygio.

Atodiad B – Geirfa

Clefyd seliag: Mae clefyd seliag yn gyflwr awto-imiwn. Mae hyn yn golygu bod y system imiwnedd – sy'n amddiffyn y corff yn erbyn haint – yn ymosod ar feinwe iach mewn camgymeriad. Mae clefyd seliag yn golygu bod y system imiwnedd yn camgymryd sylweddau a ganfyddir mewn glwten fel bygythiad i'r corff ac yn ymosod arnynt. Mae hyn yn achosi difrod arwyneb y coluddyn bach, gan amharu ar allu'r corff i amsugno maethynnau o fwyd.

Gwerthu o bell: Mae hyn yn cyfeirio at werthu a phrynu nwyddau neu wasanaethau (at ddibenion y nodiadau canllaw hyn – bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw, bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol a bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw) heb gyfathrebu wyneb yn wyneb â rhywun; er enghraifft, gwerthu bwyd ar y we (siopa ar y we, darparwyr tecawê ar-lein ac ati), archebu drwy'r post, dros y ffôn neu'r teledu.

Alergen bwyd: Caiff y sylwedd mewn bwyd sy'n gallu achosi adwaith alergaidd mewn rhai pobl ei alw'n alergen. Fel arfer, proteinau yw'r rhain ac mewn rhai pobl, mae'r system imiwnedd yn credu bod alergenau yn estron neu'n beryglus. Mae'r UE yn nodi 14 bwyd penodol sydd o bwys i iechyd y cyhoedd (alergenau bwyd cryfaf ac amlycaf yn Ewrop) a restrir yn Atodiad II FIC yr UE. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr a gall llawer o bobl fod ag alergedd i fwyd nad yw ar y rhestr.

Rholiad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr yr UE (Rhif 1169/2011; FIC): Ar 25 Hydref 2011, mabwysiadodd Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd Reoliad (UE) Rhif 1169/2011 (1) ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr (FIC). Prif nod y FIC yw'r canlynol: galluogi defnyddwyr i gael yr wybodaeth sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau bwyd gwybodus ac iach, ac i sicrhau nad ydynt yn cael eu camarwain; diogelu defnyddwyr sydd ag alergeddau ac anoddefiadau bwyd drwy roi gwybodaeth ddigonol a chlir iddynt allu gwneud dewisiadau bwyd diogel. Mae'r FIC wedi bod yn weithredol ers 13 Rhagfyr 2014, ac eithrio'r darpariaethau yn ymwneud â'r datganiad maethiad sydd wedi bod yn weithredol ers 13 Rhagfyr 2016.

Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014: Prif ddiben y Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (FIR), a rheoliadau cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yw rhoi darpariaethau gorfodi ar waith er mwyn galluogi rhai darpariaethau Rheoliad Rhif 1169/2011 yr UE ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr (FIC) i gael eu gorfodi. Hefyd, mae'r Rheoliadau'n manteisio ar randdirymidiadau a nodir yn y FIC ac yn gweithredu rhai mesurau cenedlaethol (a ganiateir gan yr UE), gan gynnwys darpariaeth sy'n caniatáu i wybodaeth am alergenau ar gyfer bwyd nad yw wedi'i becynnu ymlaen llaw gael ei darparu ym mha bynnag ffordd gan gynnwys ar lafar.

Alergedd bwyd: Adwaith andwyol i fwyd sy'n cynnwys y system imiwnedd. Gall fod yn gyflwr sy'n peryglu bywyd. Gall symptomau ymddangos o fewn munudau, neu hyd at sawl awr ar ôl i rywun fwyta bwyd maent ag alergedd iddo. Ni ellir gwella alergedd bwyd. Mae'n rhaid i unigolyn sydd ag alergedd osgoi'r bwyd sy'n ei wneud yn sâl.

Gweithredwr busnes bwyd: Caiff hyn ei ddiffinio yn Rheoliad yr UE Rhif 178/2002 (erthygl 3(3)) (Cyfraith Bwyd Gyffredinol) (o'i gyfieithu) fel 'y personau naturiol neu gyfreithiol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gofynion cyfraith bwyd yn cael eu bodloni o fewn y busnes bwyd o dan eu rheolaeth'. Hefyd, caiff busnes bwyd (fel y cyfeirir ato yn Erthygl 3(2)) ei ddiffinio yn yr un rheoliad (o'i gyfieithu) fel 'unrhyw ymgymeriad (*undertaking*), boed er elw neu beidio neu p'un a yw'n gyhoeddus neu'n breifat, sy'n cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gam cynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd'.

Anoddefiad bwyd: Anhawster wrth dreulio rhai bwydydd ac adwaith corfforol iddynt. Nid yw anoddefiadau bwyd yn cynnwys y system imiwnedd ac nid ydynt yn peryglu bywyd fel arfer. Fodd bynnag, gallant wneud rhywun deimlo'n sâl iawn neu effeithio ar eu hiechyd hirdymor. Mae enghreifftiau o anoddefiad bwyd yn cynnwys anoddefiad lactos a glwten.

Cynhwysyn: Diffinnir hwn yn Erthygl 2(2)(f) y FIC fel (o'i gyfieithu) 'unrhyw sylwedd neu gynnyrch, gan gynnwys cyflasynnau, ychwanegion bwyd ac ensymau bwyd, ac unrhyw gyfansoddyn o gynhwysyn cyfansawdd, a ddefnyddir wrth weithgynhyrchu neu baratoi bwyd ac sy'n dal i fod yn bresennol yn y cynnyrch terfynol, hyd yn oed os yw mewn ffurf wedi'i newid; ni chaiff gweddillion eu hystyried yn 'gynhwysion'.'

Label: Caiff label ei ddiffinio yn Erthygl 2(2)(i) y FIC fel (o'i gyfieithu) 'unrhyw dag, brand, marc, darlun neu ddeunydd disgrifiadol arall, mewn ysgrifen, print, stensil, marc, boglynnu neu argraff, neu wedi'i atodi at ddeunydd pecynnu neu gynhwysydd bwyd'.

Arlwywyr mawr: Diffinnir hyn yn Erthygl 2(2)(d) FIC yr UE fel (o'i gyfieithu) 'unrhyw sefydliad (gan gynnwys cerbyd neu stondin sefydlog neu symudol), megis bwytai, ffreutur, ysgolion, ysbytai a mentrau arlwyio lle, wrth weithredu, mae bwyd yn cael ei baratoi ymlaen llaw yn barod i'w fwyta gan y defnyddiwr terfynol'.

Bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw:

- Mewn siopau manwerthu, mae hyn yn debygol o fod yn berthnasol i fwyd sy'n cael ei werthu'n rhydd o gownter delicatessen (e.e. cigoedd oer, caws, tartenni sawrus, pasteiod a dipiau), pizza ffres, bariau salad, bara a werthir mewn becws, cig o'r cigydd, danteithion cymysg (gan gynnwys melysion a siocledi wedi'u pecynnu'n unigol), ac ati.
- Mewn amgylchedd arlwyio, mae hyn yn debygol o fod yn berthnasol i fwyd na chaiff ei werthu wedi'i becynnu ymlaen llaw, er enghraifft bwyd o siop tecawê, neu brydau a weinir mewn ffreutur neu fwyty.

Wedi'i becynnu ar y safle gwerthu ar gais y defnyddiwr:

Gall enghreifftiau gynnwys:

- Bwyd sy'n cael ei baratoi'n ffres a'i becynnu ar ôl i'r defnyddiwr ei archebu, er enghraifft byrgyr sy'n cael ei baratoi a'i becynnu ar gyfer archeb.

- Bwyd sydd wedi'i baratoi ymlaen llaw ond heb ei becynnu ymlaen llaw, er enghraifft brechdan neu sleis o pizza sydd wedi'i baratoi yn y bore a'i arddangos y tu ôl i gownter wrth baratoi ar gyfer cinio prysur ac yna'i lapio ar gyfer y defnyddiwr wrth iddo archebu.

Bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw: Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw fwyd wedi'i becynnu cyn cael ei werthu er enghraifft bar o siocled, paced o greision wedi'i selio, jar o saws neu gan o gawl. Mae'n rhaid i bob un o'r canlynol fod yn berthnasol:

- mae'r bwyd un ai wedi'i amgáu'n rhannol neu'n llwyr yn y pecyn;
- ni ellir newid y bwyd heb agor neu newid y pecyn
- mae'r cynnyrch yn barod i'w werthu i'r cwsmer terfynol neu i arlwywr mawr. (Wedi'i addasu o'r diffiniad yn Erthygl 2 (2)(e) o FIC yr UE).

Bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol): Mae hyn yn berthnasol i fwyd sydd wedi'i becynnu ar yr un safle y caiff ei werthu. Caiff bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol ei drin yn yr un ffordd â bwyd nad yw wedi'i becynnu ymlaen yn narpariaethau labelu FIC yr UE. I gynnyrch *fod yn un sydd 'wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol'*, gall un neu fwy o'r canlynol fod yn berthnasol:

- Disgwylir y gall y cwsmer siarad â'r person a oedd yn gyfrifol am baratoi neu becynnu'r cynnyrch er mwyn gofyn am gynhwysion.
- Gallai bwyd a all ddod o dan y categori hwn gynnwys pasteiod cig wedi'u paratoi ar y safle a brechdanau wedi'u paratoi a'u gwerthu o'r un safle.

Gall enghreifftiau o fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol hefyd gynnwys bwyd wedi'i bwysu ymlaen llaw, wedi'i becynnu a'i selio o gownteri delicatessen, mewn siopau bara neu siopau melysion.

Atodiad C – Deunydd cyfeirio

Rheoliadau

[Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr \(UE 1169/2011;FIC\)](#)

[Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd \(Cymru\) 2014](#)

[Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014](#)

[Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd \(Yr Alban\) 2014](#)

[Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd \(Gogledd Iwerddon\) 2014](#)

[Deddf Diogelwch Bwyd 1990](#)

[Gorchymyn Diogelwch Bwyd \(Gogledd Iwerddon\) 1991](#)

Canllawiau

Canllawiau'r ASB (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon):[Gofynion gwybodaeth a labelu alergenau bwyd o dan Reoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr yr UE Rhif 1169/2011: Canllawiau Technegol](#)